

CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWDYD AR 29 IONAWR 2019 YN NHŶ HASTINGS

Yn bresennol: Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

Swyddogion CFfDLC yn bresennol: Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon);

Amser Dechrau: 09:30

Amser Gorffen: 12:15

Ymddiheuriadau: Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mrs Cath Thomas (Cynorthwydd Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwydd Swyddfa); Mr Matthew Farrell (Swyddog Arolygon)

1. Datganiadau o Fuddiant

- 1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

2. Briff y Cadeirydd

- 2.1. Gofynnodd y Cadeirydd am i Julie James, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, gael ei gwahodd i gyfarfod â'r Comisiwn.
- 2.2. Briffiodd y Cadeirydd y dylai'r Prif Weithredwr drefnu i gyfarfod â Chris Llewellyn, sef Prif Weithredwr newydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.
- 2.3. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn ystyried y Dadansoddiad o'r Estyniad i'r etholfraint.
- 2.4. Llongyfarchwyd Tom Jenkins ar ei ddyrchafiad i swydd Rheolwr Arolygon.
- 2.5. Croesawyd Mrs Shereen Williams gan y Cadeirydd i'w chyfarfod cyntaf o'r Comisiwn fel Prif Weithredwr, a dymunodd bob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd.
- 2.6. Gofynnodd y Cadeirydd am wneud cofnod o werthfawrogiad a diolchiadau'r Comisiwn i Mr Steve Halsall, y Prif Weithredwr a ymddeolodd yn ddiweddar, am ei ymroddiad, ei arweinyddiaeth a'i gyngor cadarn trwy gydol ei gyfnod

gyda'r Comisiwn, yn y cofnodion. Dymunodd y Comisiynwyr ymddeoliad hir, iach a bodlon iddo.

3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2018

- 3.1. Roedd yr Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i'w godi yng nghyfarfod y Comisiwn ym mis Chwefror
- 3.2. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2018, yn dilyn nifer o fân ddiwygiadau, fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

4. Materion yn Codi

- 4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 23 Ionawr 2019 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar Faterion yn Codi.
- 4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn gyffredinol gan nodi'r materion i'w trafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd hefyd cynnydd wedi'i ddiweddarau ar y materion canlynol:
 - **(Mater 4)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach
 - **(Mater 3)** Polisiâu Adnoddau Dynol
 - **(Mater 5)** Adolygiad JEGS (Cymorth Graddio a Gwerthuso Swyddi)
 - **(Mater 6)** Argymhellion Buddsoddwyr mewn Pobl.

5. Arolwg Etholiadol Ceredigion - Adroddiad

- 5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Ionawr 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 5.2. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai paragraff 124 yr Adroddiad gael ei ehangu i egluro pam mae'r Cynigion Drafft yn yr ardal wedi'u newid yn ôl i'r Trefniadau Presennol.
- 5.3. Cytunwyd yr Adroddiad yn amodol ar wneud nifer o fân ddiwygiadau.

6. Arolwg Etholiadol Merthyr Tudful - Adroddiad

- 6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Ionawr 2019 gan y Swyddog Arolygon.
- 6.2. Cytunwyd yr Adroddiad yn amodol ar wneud nifer o fân ddiwygiadau.

7. Arolwg Etholiadol Blaenau Gwent - Opsiynau

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Rhagfyr 2018 gan y Swyddog Arolygon.

7.2. Cytunodd y Comisiwn Opsiwn A ar gyfer Ardal 1 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Georgetown, Sirhywi a Thredegar

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw'r mwyafrif o'r trefniadau presennol
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau â phedwar aelod.

7.3. Cytunodd y Comisiwn Opsiwn A(1) ar gyfer Ardal 2 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Beaufort, Gogledd Glynebwy, De Glynebwy a Rasa a Garnlydan

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw'r mwyafrif o'r trefniadau presennol
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau â phedwar aelod.
- Mae'n cadw wardiau etholiadol presennol Gogledd Glynebwy a De Glynebwy

7.4. Cytunodd y Comisiwn Opsiwn A ar gyfer Ardal 3 sy'n cynnwys wardiau etholiadol:

Abertyleri, Blaenau, Brynmawr, Cwm, Cwmtylleri, Llanhilledd a Nantyglo

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefel gyffredinol cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal.
- Mae'n cadw'r mwyafrif o'r trefniadau presennol
- Nid yw'n creu unrhyw wardiau â phedwar aelod.
- Nid yw'n rhannu unrhyw gymunedau, yn wahanol i Opsiwn B

8. Arolwg Etholiadol Blaenau Gwent - Adroddiad

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 17 Rhagfyr 2018 gan y Swyddog Arolygon.

- 8.2. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylid ychwanegu paragraff ychwanegol ym mhennod 4 yn egluro'r gwahaniaeth rhwng ffigur etholwr 2017 a gyflenwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a ffigurau'r boblogaeth sy'n gymwys i bleidleisio a gyflenwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- 8.3. Cytunwyd yr Adroddiad yn amodol ar wneud nifer o fân ddiwygiadau.

9. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

- 9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Ionawr 2019 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.
- 9.2. Dywed yr adroddiad y byddai Opsiynau Sir Gaerfyrddin yn cael sylw ym mis Mawrth, a bod 17 o'r 22 o adroddiadau wedi'u dechrau.
- 9.3. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

10. Penodi Rheolwr Arolygon Dros Dro

- 10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Ionawr 2019 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.
- 10.2. Noda'r adroddiad fod un o Swyddog Arolygon y Comisiwn wedi llwyddo i gael y swydd dros dro.
- 10.3. Nodwyd cynnwys yr adroddiad.

11. Derbyng Ffioedd

- 11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid. **Cytunodd** yr aelodau ar y Polisi Derbyng Ffioedd, a phennwyd dyddiad adolygu ar gyfer mis Ionawr 2022.

12. Adfer Colledion i Gyllid Cyhoeddus

- 12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid. **Cytunwyd** y Polisi Adfer Colledion i Gyllid Cyhoeddus yn amodol ar fân ddiwygiadau, a phennwyd dyddiad adolygu ar gyfer mis Ionawr 2022.

13. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

- 13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid. Mewn perthynas â risg CR6 nodwyd fod dau gopi o'r brydles wedi'u llofnodi, heb eu dyddio, un wedi'i llofnodi gan y landlord a'r llall wedi'i llofnodi gan y Comisiwn. Roedd y Comisiwn o'r farn y dylai fod un copi dyddiedig o'r brydles wedi'i llofnodi gan y ddau barti.
- 13.2. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cael copi dyddiedig o'r brydles wedi'i llofnodi gan y ddau barti.
Gweithredu: Rheolwr Cyllid. **Erbyn:** 15 Chwefror 2019

14. Adroddiad ar y Gyllideb

- 14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Rheolwr Cyllid. Nododd y Comisiwn fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ei fod wedi ildio £20,000 o Gymorth Grant. Nododd a **chytunodd** y Comisiwn y newidiadau arfaethedig i'r categorïau cyllideb.
- 14.2. Adroddwyd bod yr Ysgrifenyddiaeth wrthi'n ystyried yr opsiynau ar gyfer caffael caledwedd clyweledol ar gyfer y prosiect TGCh a gofynion caledwedd eraill.
- 14.3. Nododd y Comisiwn sefyllfa bresennol y gyllideb a'r sefyllfa diwedd blwyddyn a amcangyfrifir.

15. Adroddiad Cynnydd y Prosiect Trawsnewid TGCh

- 15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 21 Ionawr 2019 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.
- 15.2. Roedd gwaith datblygu'r wefan yn mynd rhagddo, gyda'r datblygwr yn cysylltu'n uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru. Bydd hyfforddiant i staff y Comisiwn yn dechrau ym mis Chwefror cyn i'r safleoedd 'fynd yn fyw'. Gobeithiwyd y byddai profion beta yn dechrau yn Ionawr 2019.
- 15.3. Roedd yr archwiliadau ar gyfer Cyber Essentials Plus ac Office 365 Security Review yn parhau i fynd rhagdynt.

16. Calendr Digwyddiadau

- 16.1. Nodwyd y calendr gan y Comisiwn.

17. Unrhyw Fusnes Arall

17.1. Nid oedd unrhyw fusnes arall i'w drafod.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 26 Chwefror 2019